

Pwddin Nadolig yn yr eira mawr

(dyfalbarhad / dewrder / ffyddlondeb)

Rhagfyr 21, 1908 – “Bron â llwgu... mae'r bara fel darnau o rew. Dydw i ddim yn gwybod ble i droi...” Dyna sgwennodd Ernest Shackleton yn ei ddyddiadur pan oedd yn arwain criw o ddynion ar eu taith i Begwn y De. Am ddau fis roedden nhw wedi ymlafnio mewn tywydd erchyll. Roedd y tymheredd ymhell islaw pwynt rhewi, y gwynt yn nerthol a'r eira'n drwchus. Byd gwyn oedd eu bywyd bob dydd.

“Beth wnawn ni?” gofynnodd Shackleton i'w ffrindiau. “Ydi hi'n werth i ni fynd yn ein blaenau?” “Mi fuasai popeth yn iawn petai'r merlod gyda ni,” meddai Marshall, un o'r criw. Roedd y merlod oedd yn tynnu'r slediau wedi marw yng ngerwinder y tywydd. Bellach roedd yn rhaid i'r dynion eu hunain lusgo'r slediau ar draws yr eira trwchus.

“Maen nhw'n eithriadol o drwm,” cwynodd un arall o'r criw.

“Ond mae gynnon ni rywbeth i edrych ymlaen ato?” meddai un arall.

“A beth ydi hwnnw?” meddai Shackleton.

“Cinio Nadolig,” oedd yr ateb pendant.

Gwenodd Shackleton. Er gwaetha'r tywydd dychrynlyd roedd y criw yn ddigon hyderus. Doedd dim dewis ond gadael y rhan fwyaf o'u dillad a'u nwyddau yn y camp ychydig filltiroedd i ffwrdd. Yr unig beth oedd ganddyn nhw bellach oedd dillad a bwyd – dim arall. Ac yn ôl pob golwg roedd cryn filltiroedd cyn cyrraedd Pegwn y De.

Erbyn chwech o'r gloch Ddydd Nadolig doedden nhw ddim wedi mynd mwy na dwy filltir ar eu taith. Chwythai'r gwynt yn ddirugaredd a hwythau'n ceisio codi pabell. Ar ôl cryn frwydr roedd y babell wedi'i chodi a dyma'r pedwar yn llusgo i mewn i gludwch, os cludwch hefyd, y babell. Ar ôl gorffwyso, dyna lle roedd y pedwar yn meddwl am eu teuluoedd a'i ffrindiau. Dydd Nadolig oedd hi wedi'r cwbl.

“Reit,” meddai Ernest. “Mae hi'n ddydd Nadolig. Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd yn llwgu fel finnau. Taniodd Shackleton y stôf a dechreuodd baratoi'r wledd. Ernest oedd y cogydd. Bu wrthi'n ddiwyd am un awr dda. Yna meddai'n sydyn, “Mae'r cwrs cyntaf yn barod.”

“O’r diwedd,” meddai’r lleill efo’i gilydd gan chwerthin.

Gafaelodd pob un yn ei blât a dyna lle roedd ... wel, ... beth oedd hwn? Edrychodd y dynion ar ei gilydd. Onid hwn oedd y bwyd oedd yn cael ei roi i’r merlod? Rhyw fath o gig oedd hwn. Cyn pen dim roedd y platau’n berffaith lân. Roedd y dynion ar llwgu.

“A beth ydi’r prif gwrs?” gofynnodd un arall.

Beth oedd ar y platau y tro hwn, tybed? Dim ond un fisgeden sych ar bob plât a hanner cwpanaid o oxo. Ymhen ychydig eiliadau roedd y cyfan wedi diflannu. Yna daeth yr uchafbwynt. Er bod y rhan fwyaf o’r nwyddau, y dillad a’r offer wedi’u gadael yn y camp rai milltiroedd i ffwrdd roedd Ernest, y cogydd, wedi cadw un gyfrinach yn y bag oedd ar ei gefn.

Berwodd ddŵr ar y stôf a phan ddaeth y dŵr i ferw, rhoddodd y pwdin yn y dŵr – y pwdin Nadolig. Cododd y stêm o’i gwmpas. Tynnodd y cogydd y pwdin o’r dŵr. Rhoddodd y pwdin yn ofalus ar blât a dechreuodd ei dorri’n bedwar darn cyfartal.

“Nadolig Llawnen bawb,” meddai.

“Nadolig Llawnen,” meddai pob un ohonyn nhw. Dyna’r cinio Nadolig gorau erioed.



Adnod: “... esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a’i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.” Luc 2:7



Gweddi: O Dduw, y Nadolig hwn, a gawn ni feddwl am y rhai sydd heb gartref, heb deulu, a heb fwyd, heb ddim. Wnei di’n helpu, i chwilio am ffyrdd i’w helpu nhw? Amen.



Trafod:

- Yn ôl yr hanes, ni lwyddodd Shackleton i gyrraedd Pegwn y De; bu’n rhaid iddyn nhw droi’n ôl. Ceisiwch ddisgrifio ei siom.
- Trafodwch y syniad o “fwyta unrhyw beth” pan fyddwch bron â llwgu.